BBC

# Canllawiau Etholiad Cyffredinol 2024

**Diwrnod Pleidleisio: Dydd Iau 4 Gorffennaf**


1. Cyfnod yr Etholiad ..... 3
   1.1 Cyfnod yr Etholiad a pha bryd y daw Canllawiau'r Etholiad a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym ..... 3
   1.2 Etholiadau ..... 3
   1.3 Y Canllawiau ..... 3
   1.4 I bwy mae'r Canllawiau'n berthnasol ..... 5
2. Crynodeb o'r materion a'r atgyfeirio gorfodol ..... 5
   2.1 Yn ystod Cyfnod yr Etholiad: ..... 5
   2.2 Diwrnod pleidleisio (tan 2200) ..... 6
3. Didueddrwydd Dyladwy ..... 6
   3.1 Sylw i'r Pleidiau a'r Ymgeiswyr ..... 6
   3.2 Didueddrwydd mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein ..... 7
   3.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill a chyrff etholedig eraill yn ystod Cyfnod yr Etholiad ..... 8
   3.4 Trefn y Pleidiau ..... 9
4. Tegwch i Ymgeiswyr – Cod Ymarfer ..... 9
   4.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (h.y. etholaethau) ..... 9
   4.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau sy'n ymwneud â materion, dadleuon ehangach a rhaglenni ffonio-i-mewn ..... 10
   4.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg ..... 11
5. Cyfraniadau Ar-lein, Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfraniadau'r Gynulleidfa ..... 11
   5.1 Twyll-wybodaeth ..... 12
   5.2 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol ..... 12
   5.3 Cyfraniadau'r gynulleidfa ..... 12
   5.4 Vox Pops ..... 13
   5.5 Rhaglenni Cynulleidfaol ..... 13
   5.6 Deunydd wrth bleidiau neu ymgeiswyr ..... 13
6. Polau piniwn a dulliau eraill o gasglu barn ..... 14
   6.1 Comisiynu Polau Piniwn ..... 14
   6.2 Gohebu ar Bolau Piniwn ..... 14
   6.3 Pleidleisio SMS/Ar-lein ..... 16
7. Arweinwyr y Pleidiau ..... 16
8. Diwrnod Pleidleisio ..... 16
9. Cwynion ..... 17

**Atodiad – Canllawiau ar Roi Sylw i Bleidiau ac Ymgeiswyr ..................... 18**
**A1.1 Cyflwyniad ........................................................................ 18**
**A1.2 OFCOM ............................................................................. 19**
**A2.1 Sylw'r BBC i'r pleidiau ar draws y DU .......................................... 20**
**A2.2 Sylw yn y DU ar gyfer pleidiau eraill ym Mhrydain Fawr: ........... 20**
**A2.3 Sylw i bleidiau Gogledd Iwerddon ar allbwn ar draws y DU ....... 21**
**A3 Sylw i'r pleidiau ar BBC Scotland: ............................................... 21**
**A4 Sylw i'r pleidiau ar BBC Cymru: .................................................... 22**
**A5 Sylw i'r pleidiau ar BBC Northern Ireland: .................................... 22**
**A6 Sylw i'r pleidiau yn Lloegr a Radio Lleol ...................................... 23**
**A7 Ymgeiswyr annibynnol ................................................................... 23**
**A8 Rhestrau o ymgeiswyr ar BBC Online .......................................... 24**

## 1. Cyfnod yr Etholiad

### 1.1 Cyfnod yr Etholiad a pha bryd y daw Canllawiau'r Etholiad a'r Atodiadau ("y Canllawiau") i rym

Daw'r canllawiau hyn i rym o adeg diddymu'r Senedd, 25 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio:

**00.01 ddydd Iau 30 Mai**

Mae'r Canllawiau dal yn weithredol nes i'r gorsafoedd pleidleisio gau am 22.00 ddydd Iau 4 Gorffennaf.

Serch hynny, mae ymgyrchu ar gyfer etholiad cyffredinol yn dechrau cyn cyfnod swyddogol yr etholiad, a dylai cynhyrchwyr cynnwys roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â didueddrwydd dyladwy yn ystod y cyfnod cyn diddymu'r Senedd. Mae cyngor ar gael wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. Gweler hefyd Nodyn Ofcom i Ddarlledwyr, a gyhoeddwyd ar 23 Mai 2024, ynglŷn â *"Gofynion Didueddrwydd Dyladwy yn y cyfnod cyn yr etholiad"*

https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/about-ofcom/bulletins/broadcast-bulletins/2024/issue-499/2024-05-23-election-note-to-broadcasters-2024.pdf

Nid oes unrhyw wahaniaeth ffurfiol, unwaith y bydd yr etholiad wedi'i alw, rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl i'r enwebiadau gau. Cyfeirir at y cyfan fel "Cyfnod yr Etholiad."

Enwebiadau'n cau **ddydd Gwener 7 Mehefin**

### 1.2 Etholiadau

Bydd yr Etholiad Cyffredinol yn defnyddio system y cyntaf i'r felin mewn 650 o etholaethau San Steffan ar draws y DU gyfan.

Ar ôl hynny, bydd unrhyw is-etholiadau San Steffan yn ystod y senedd sy'n dilyn hefyd yn defnyddio'r Canllawiau hyn a rhannau A1.1 ac 1.2 (yn unig) o'r Atodiad.

### 1.3 Y Canllawiau

Gohebu ar ymgyrchoedd etholiadol yw'r maes darlledu lle craffir ar ymrwymiad y BBC tuag at ddidueddrwydd dyladwy fwyaf manwl.

Bwriad y Canllawiau hyn yw cynnig fframwaith i newyddiadurwyr er mwyn:

- gallu gweithredu mewn amgylchedd mor rhydd a chreadigol â phosib,
- cyflwyno adroddiadau diduedd ac annibynnol i gynulleidfaoedd o'r ymgyrch, gan roi sylw teg a chraffu trylwyr o bolisïau ac ymgyrchoedd yr holl bleidiau.

**Mae rheidrwydd cyfreithiol ar y BBC hefyd i fabwysiadu Cod Ymarfer mewn perthynas â "chyfranogiad ymgeiswyr mewn etholiad seneddol neu lywodraeth leol mewn eitemau am yr etholaeth neu'r ardal etholiadol dan sylw sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau perthnasol yn ystod cyfnod yr etholiad". Rhaid i'r BBC "roi ystyriaeth" i safbwyntiau'r Comisiwn Etholiadol o'r Cod, a nodir yn Adran 4 o'r Canllawiau hyn.**

Mae'n ofynnol i'r BBC hefyd, o dan delerau ei Siarter a'i Gytundeb, sicrhau yr ymdrinnir â materion gwleidyddol gyda chywirdeb dyladwy a diduedddrwydd dyladwy. Mae'r Canllawiau Etholiadol hyn yn cyd-fynd â'r Canllawiau Golygyddol (Adran 4, "Didueddrwydd" a Phennod 10, "Gwleidyddiaeth, Polisi Cyhoeddus a Pholau Piniwn").

Dylent, yn benodol, gael eu darllen ar y cyd â'r canllawiau "Etholiadau a Refferenda'r DU" ym Mhennod 10 (10.3.13 – 10.3.17). Mae'n cynnwys y canlynol:

***10.3.15*** *Dylai'r BBC wneud penderfyniadau golygyddol ynghylch y sylw sy'n cael ei roi i ymgyrchoedd, a gallu eu hamddiffyn, ar y sail eu bod yn rhesymol ac wedi'u gwneud yn ofalus, gyda didueddrwydd dyladwy. Mae'n bwysig bod barn am yr hyn yw newyddion yn parhau'n sail i benderfyniadau golygyddol mewn rhaglenni seiliedig ar newyddion a bod y farn honno adeg etholiad yn cael ei ffurfio o fewn fframwaith o drafodaeth ddemocrataidd. Dylai'r fframwaith hwnnw sicrhau bod pwys dyladwy yn cael ei roi ar gyfleu, archwilio a herio safbwyntiau a pholisïau'r holl bleidiau perthnasol. Mewn darllediadau ar gyfer y DU gyfan, rhaid ystyried ac adlewyrchu'r gwahanol strwythurau gwleidyddol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig.*

***10.3.16*** *Bydd y ffordd o sicrhau didueddrwydd dyladwy rhwng pleidiau yn amrywio, yn ôl y fformat, yr allbwn a'r platfform. Bydd penderfynu'r priod lefelau o sylw i wahanol bleidiau gwleidyddol, sydd â lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn galw'n bennaf am farn olygyddol dda a diduedd, yn hytrach na defnyddio fformiwlâu mathemategol. Ond rhaid i gynhyrchwyr cynnwys gymryd cyfrifoldeb am sicrhau didueddrwydd dyladwy yn eu hallbwn eu hunain heb ddibynnu o reidrwydd ar gynnwys neu wasanaethau eraill y BBC.*

**Mae'r Canllawiau ar gael yn gyhoeddus a gall y BBC ddisgwyl bod yn atebol am eu gweithredu yn ystod yr ymgyrch.**

**Mae allbwn y BBC yn ystod cyfnod yr etholiad hefyd yn amodol ar Adrannau 5 a 6 o God Ofcom (ac eithrio adrannau 6.8 – 6.12) a'r Canllawiau cysylltiedig sy'n gyson â chadw at y Canllawiau hyn. Cyhoeddodd Ofcom hefyd Nodyn i Ddarlledwyr sy'n nodi ei ganllawiau ar gyfer "Rhaglenni etholiadol yn yr Etholiad Cyffredinol sy'n cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024."**

Adran pump: Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy - Ofcom

Adran chwech: Etholiadau a refferenda - Ofcom

Nodyn Ofcom i Ddarlledwyr: Rhaglenni etholiadol yn yr Etholiad Cyffredinol sy'n cael ei gynnal ar 4 Gorffennaf 2024

### 1.4 I bwy mae'r Canllawiau'n berthnasol

Cyfrifoldeb pob golygydd yw sicrhau bod eu cynhyrchwyr cynnwys yn ymwybodol o sut mae'r Canllawiau yn berthnasol i'w hallbwn.

Mae'n rhaid i unrhyw raglen sydd ddim fel arfer yn ymdrin â phynciau gwleidyddol neu'n gwahodd gwleidyddion i gymryd rhan, ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth ymlaen llaw cyn gwahodd gwleidydd, ymgeisydd neu unrhyw un sydd wedi cymryd safbwynt gwleidyddol amlwg i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae hyn yn berthnasol os yw'r cyfraniad arfaethedig yn 'wleidyddol' neu beidio.

Mae'r Atodiad yn nodi gwybodaeth benodol am lefel y sylw ar draws y DU ac ym mhob gwlad.

Dylai pob rhaglen, cyfres, gwefan neu sianel ystyried lleoliad y gynulleidfa arfaethedig wrth roi'r Canllawiau hyn ar waith.

Mae'r Canllawiau hyn yn gymwys i unrhyw gynnwys a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU, sy'n ymdrin ag unrhyw agwedd ar yr etholiad.

## 2. Crynodeb o'r materion a'r atgyfeirio gorfodol

### 2.1 Yn ystod Cyfnod yr Etholiad:

- **Lle na fyddai cynnwys fel arfer yn cynnwys materion gwleidyddol, barn wleidyddol neu wleidyddion (er enghraifft, chwaraeon, sioeau cwis/panel, adloniant ffeithiol) rhaid i gynhyrchwyr cynnwys ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth ymlaen llaw cyn gwahodd gwleidydd (neu unrhyw un sydd wedi cymryd safbwynt gwleidyddol amlwg) i gymryd rhan yn eu hallbwn, neu cyn derbyn cais i gymryd rhan. Mae hyn yn berthnasol os yw eu cyfraniad yn 'wleidyddol' neu beidio.***

- **Ar wahân i gyfweliadau newyddion byrion a gasglwyd ar y dydd heb drefniant ymlaen llaw, dylai unrhyw fwriad i gyfweld ag arweinwyr y pleidiau neu eu portreadu (neu rôl weithredol arall) gael eu cyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, cyn gofyn i'r pleidiau. Yn nghenhedloedd y DU, dylid ymgynghori â'r Penaethiaid Newyddion priodol. Rhaid i gynigion o'r fath i gymryd rhan wrth y pleidiau gael eu cyfeirio hefyd cyn eu derbyn neu eu gwrthod.**

- **Mae'n rhaid i unrhyw fwriad i ddefnyddio cyfraniad gan ymgeisydd heb roi cyfle i unrhyw blaid neu ymgeisydd arall wneud sylwadau nac ymateb gael eu cyfeirio at ffigwr golygyddol uwch a'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth. (gweler cyd-destun 3.5).**

- **Rhaid i unrhyw fwriad i "adael cadair wag" ar gyfer cynrychiolydd plaid gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth (gweler 4.1).**

- **Ni fydd y BBC yn comisiynu polau piniwn o fwriadau pleidleisio i'w cyhoeddi yn ystod yr ymgyrch.**

- **Mae'n rhaid i unrhyw fwriad i gomisiynu pôl piniwn ar unrhyw bwnc polisi cyhoeddus, gwleidyddol neu bwnc llosg diwydiannol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.***

- **Ni fydd y BBC yn cynnal pleidleisiau (ar-lein, SMS / testun na chyfryngau cymdeithasol) sy'n ceisio mesur cefnogaeth i blaid, ymgeisydd neu fater polisi gwleidyddol y pleidiau.**

- **Rhaid trafod unrhyw fwriad i gynnal pleidlais (ar-lein, testun neu gyfryngau cymdeithasol) ar unrhyw fater gwleidyddol a allai effeithio ar yr etholiad gyda'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at ffigwr golygyddol uwch yn yr adran berthnasol ac ITACU.**

- **Ni fydd y BBC yn darlledu nac yn cyhoeddi niferoedd e-byst, negeseuon testun na deunydd cyfathrebu eraill a dderbynnir ar y naill ochr i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch.**

*** mae atgyfeirio hefyd yn orfodol y tu allan i gyfnodau etholiadol.**

### 2.2 Diwrnod pleidleisio (tan 2200)

**Ni ddylid cyhoeddi unrhyw bôl piniwn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r etholiad.**

**Ni fydd unrhyw faterion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymgyrch etholiadol yn cael sylw ar unrhyw un o wasanaethau neu gyfryngau cymdeithasol y BBC rhwng 06.00 – 22.00 (rhaid i unrhyw sylw o'r fath cyn 06.00 gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth).**

**Tra bod y gorsafoedd pleidleisio ar agor, mae'n drosedd cyhoeddi unrhyw beth ynglŷn â'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiad hwnnw, yn seiliedig ar wybodaeth gan bleidleiswyr ar ôl iddynt bleidleisio.**

## 3. <u>Didueddrwydd Dyladwy</u>

### 3.1 Sylw i'r Pleidiau a'r Ymgeiswyr

I gyflawni didueddrwydd dyladwy, mae'n rhaid i bob bwletin, rhaglen neu gyfres o raglenni, yn ogystal â gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol, wrth ymdrin â'r etholiad, sicrhau bod y pleidiau (a lle bo'n berthnasol, ymgeiswyr annibynnol) yn cael sylw cymesur dros gyfnod priodol o amser.

Dylai penderfynu ar lefelau priodol o sylw ystyried lefelau cymorth etholiadol yn y gorffennol a'r presennol. (gweler Atodiad) a Chrynodeb Ofcom, a gyhoeddwyd ar 29 Mai 2024).

https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-guidance/programme-guidance/election-guidance/general-election-digest-2024.pdf

Cefnogaeth etholiadol mewn etholiadau cyfatebol blaenorol (gweler Atodiad) yw'r man cychwyn ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn. Serch hynny, dylid ystyried ffactorau eraill lle bo'n briodol, gan gynnwys tystiolaeth o'r newid yn lefelau'r gefnogaeth mewn etholiadau eraill diweddar, newid mewn amgylchiadau gwleidyddol (e.e. pleidiau newydd neu raniadau o fewn pleidiau) yn ogystal â thystiolaeth arall o gefnogaeth gyfredol, fel tueddiadau cyson a chadarn mewn polau piniwn. Gall nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid hefyd fod yn ffactor (gweler A2.3 ac A3.3).

### 3.2 Didueddrwydd mewn Rhaglenni a Chynnwys Ar-lein

Dylai rhaglenni cylchgrawn newyddion dyddiol a phodlediadau, fel arfer, sicrhau sylw cymesur a phriodol yn ystod pob wythnos o'r ymgyrch.

Mae hynny'n golygu bod pob cyfres (e.e. sioe '*drive time'* ar radio) yn gyfrifol am gyflawni ei didueddrwydd ei hun o fewn yr wythnos ac ni all ddibynnu ar wasanaethau eraill ar wahanol adegau o'r dydd (e.e. sioe frecwast) i wneud hynny. Nid yw hynny'n atal rhaglenni, mewn amgylchiadau penodol, rhag cydweithio i drefnu sylw ar y cyd, a thrwy hynny gyflawni didueddrwydd dyladwy ar draws yr orsaf neu'r sianel. Mae angen cyfeirio at drefniant o'r fath yn glir.

Dylai cyfresi o raglenni osgoi penodau unigol rhag mynd allan o drefn yn sylweddol. Efallai y bydd diwrnodau pan mae'n anochel y bydd un blaid yn dominyddu'r agenda newyddion, e.e. pan fydd maniffestos pleidiau yn cael eu lansio, ond yn yr achos hwnnw rhaid bod yn ofalus i sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i lansiadau maniffestos, pleidiau neu ymgeiswyr eraill ar y diwrnodau perthnasol a bod cyfeiriadau priodol yn ôl ac ymlaen.

Dylai rhaglenni neu bodlediadau wythnosol neu reolaidd, neu gyfresi sefydlog o fewn rhaglenni dyddiol, sy'n canolbwyntio ar un blaid neu'r llall, gyfeirio yn ôl ac ymlaen, er mwyn sicrhau ei bod yn glir i'r gynulleidfa bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei ddatblygu dros amser. Yn yr enghreifftiau hyn, dylai didueddrwydd dyladwy gael ei gyflawni yn ystod yr ymgyrch.

Mae'r un canllawiau ar gyfer rhaglenni yn gymwys i gynnwys Golygyddol y BBC ar holl safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain hefyd yn gymwys i gynnwys sain a fideo yn ogystal â chynnwys testun e.e. podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal ag unrhyw sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partïon (gweler adran 5 isod).

Yn ôl y Canllawiau Golygyddol (**4.3.12**) "*ni ddylem gymryd yn awtomatig fod cyfranwyr o sefydliadau eraill (fel ysgolheigion, newyddiadurwyr, ymchwilwyr a chynrychiolwyr elusennau a melinau trafod) yn ddiduedd. Dylid darparu gwybodaeth briodol am eu cysylltiadau, eu cyllid a'u safbwyntiau penodol i'r gynulleidfa, pan fo hynny'n berthnasol i'r cyd-destun".*

Yng nghyd-destun yr etholiad hwn, bydd angen i gynhyrchwyr cynnwys gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfranwyr yn cael eu disgrifio'n briodol a'u bod wedi ystyried, er enghraifft, sylwadau a wnaed ganddynt ar gyfryngau cymdeithasol, sut mae eu sefydliadau'n cael eu hariannu a natur yr ymchwil neu bôl piniwn a ddyfynnir. Wrth ohebu, yn benodol, o ran sylw'r wasg i'r ymgyrch neu wrth gynnwys newyddiadurwyr papurau newydd, yn ogystal ag adolygiadau papurau newydd, dylent hefyd ystyried unrhyw safbwynt golygyddol goddrychol perthnasol.

Rhaid i unrhyw raglen neu gynnwys sy'n rhoi sylw i'r etholiad gyflawni didueddrwydd dyladwy yn gyffredinol ymhlith pleidiau yn ystod yr ymgyrch gyfan.

Dylai unrhyw un sydd ag amheuaeth ynglŷn â sut mae hyn yn berthnasol i'w cynnwys eu hunain gysylltu â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, am gyngor.

### 3.3 Sylw i faterion gwleidyddol eraill a chyrff etholedig eraill yn ystod Cyfnod yr Etholiad

Nid yw'r etholiad yn cael ei gynnal mewn gwagle ac efallai y bydd cyrff etholedig eraill yn parhau â'u gweithgareddau arferol yn ystod yr ymgyrch. Serch hynny, mae Etholiad Cyffredinol yn derbyn cryn sylw, ac mae angen i gynhyrchwyr cynnwys gydymffurfio â gofyniad cyffredinol cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy, gan fod yn ymwybodol o ddylanwad posib unrhyw sylw gwleidyddol arall ar yr ymgyrch etholiadol.

Mae hyn yn berthnasol i'r holl ohebu seneddol a allai ddigwydd yn ystod yr ymgyrch, gan gynnwys Senedd Cymru, Senedd yr Alban a'r Cynulliad yng Ngogledd Iwerddon a Llundain yn ogystal â llywodraeth leol ar draws y DU. Dylid parhau i roi sylw i'r rhain yn y ffordd arferol, er bod rhaid gohebu'n ofalus ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol ar draws y DU sy'n cael eu trafod mewn seneddau, cynulliadau neu gynghorau, er mwyn cynnal didueddrwydd dyladwy.

Mae angen i bob cynhyrchydd cynnwys ystyried pa faterion sydd o fewn cylch gwaith y cyrff gwahanol a sicrhau ei fod yn glir i'r gynulleidfa pan fydd y straeon yn berthnasol i'r Etholiad. Efallai y bydd rhai aelodau o Seneddau a Chynulliadau eraill hefyd yn ymgeiswyr yn yr Etholiad Cyffredinol ar gyfer Senedd San Steffan; dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes mantais annheg yn yr ymgyrch etholiadol yn deillio o'u rolau gwleidyddol eraill.

Lle ceir straeon newyddion eraill o bwys, mae angen gofal arbennig i sicrhau bod unrhyw elfen wleidyddol yn cael sylw cynhwysfawr, ond ei bod hefyd yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn gyfnod etholiadol. Bydd sut y cyflawnir hynny'n dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos. Er enghraifft, lle ceir straeon mawr y tu allan i'r gystadleuaeth o fewn y pleidiau, gall didueddrwydd dyladwy gael ei gyflawni drwy roi mwy o amser i'r gwleidyddion hynny sydd fwyaf cysylltiedig â'r stori, drwy adrodd datganiadau'n llawn, rhoi gwybodaeth ffeithiol i'r gynulleidfa, ac ar brydiau, adlewyrchu ar ddadleuon mewnol brwd oddi mewn i'r pleidiau.

### 3.4 Trefn y Pleidiau

Fel arfer, dylai'r drefn y mae pleidiau neu ymgeiswyr yn ymddangos mewn allbwn gael ei llywio gan yr elfen olygyddol. Serch hynny, dylai gwneuthurwyr cynnwys gymryd gofal i sicrhau eu bod yn amrywio'r drefn hon, lle bo'n briodol, fel nad oes unrhyw batrwm sefydlog neu annheg yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgyrch. Weithiau, y ffordd orau o gael tegwch – er enghraifft – mewn dadleuon – yw drwy dynnu enw.

### 3.5 Eitemau lle nad oes angen, o bosib, cyfraniadau wrth bleidiau neu ymgeiswyr eraill

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall sylwadau gan ymgeiswyr sefyll ar eu traed eu hunain, heb unrhyw gyfraniad gwleidyddol arall, lle gallai defnyddio un ymddangos yn ansensitif neu edrych fel syrcas cyfryngau. Gallai hyn gynnwys cyfweliadau am drasiedi bersonol, trychineb cyhoeddus, neu lle mae'r person dan sylw yn llygad dyst i ddigwyddiad yn y newyddion. Rhaid cyfeirio unrhyw fwriad i ddefnyddio sylw yn y ffordd hon at ffigwr golygyddol uwch a allai ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

## 4. <u>Tegwch i Ymgeiswyr – Cod Ymarfer</u>

### 4.1 Adroddiadau a dadleuon mewn Ardaloedd Etholiadol penodol (h.y. etholaethau)

**Bwriad y canllawiau hyn yw annog trafodaeth frwd a rhoi proffil uwch i ymgeiswyr yn gyffredinol, heb roi mantais annheg i un ymgeisydd neu blaid ar draul un arall.**

Ni all ymgeiswyr neu bleidiau sy'n gwrthod cymryd rhan mewn adroddiadau neu ddadleuon yn ardal yr etholiad, roi feto yn effeithiol dros sylw o'r fath.

Serch hynny, nid yw hynny'n gwanhau mewn unrhyw ffordd rwymedigaethau'r BBC o ran tegwch wrth sicrhau bod y gynulleidfa yn cael gwybod am holl brif elfennau'r ddadl: dylid gofyn am gyngor pellach wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth mewn amgylchiadau o'r fath.

Gall rhaglenni a mathau eraill o allbwn benderfynu defnyddio naill ai ymgeiswyr neu eu cynrychiolwyr mewn eitemau. Ond os gwahoddir ymgeisydd i gymryd rhan, dylai'r cyfranwyr eraill, lle bo'n bosibl, fod yn ymgeiswyr hefyd. Mewn amgylchiadau eithriadol, os nad yw ymgeisydd ar gael, gellid cynnig y cyfle i gynrychiolydd addas o fewn y blaid neu rywun arall oddi fewn i'r ardal etholiadol (e.e. swyddog neu asiant y blaid), ond fel arfer, dylid ei gwneud yn glir i'r gynulleidfa y gwahoddwyd yr ymgeisydd coll a pham nad oeddent yn gallu cymryd rhan. Os yw plaid neu ymgeisydd yn gwrthod argymell cynrychiolydd neu enwebu rhywun mewn ffordd a allai achosi annhegwch i ymgeiswyr eraill, gall yr eitem/rhaglen fynd yn ei blaen hebddynt. *

Dylai adroddiadau neu ddadleuon am ardal etholiadol benodol roi pwys dyladwy i ymgeiswyr sydd wedi profi cefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno (naill ai drwy fod yn ymgeisydd eu hunain - er enghraifft, ymgeiswyr annibynnol - neu eu plaid). Mae hyn yn golygu, os bydd unrhyw ymgeisydd yn cymryd rhan

mewn eitem am ardal etholiadol benodol, yna dylid cynnig cyfle i'r ymgeiswyr eraill gymryd rhan hefyd, neu gael cyfle tebyg ar draws cyfres o adroddiadau.

Mae dal rhaid i ymgeiswyr neu bleidiau sydd heb ddangos bod ganddynt gefnogaeth etholiadol sylweddol yn yr ardal honno gael cynnig sylw cymesur. Mater golygyddol yw sut y gwneir hynny, ond dylai'r canlynol gael ei ystyried fan lleiaf:

Dylai adroddiadau ac eitemau byrion, gan gynnwys y rhai ar-lein, sy'n cyfeirio at rai o'r ymgeiswyr mewn ardal (neu ardaloedd) etholiadol yn unig gynnwys, yn weledol a/neu ar lafar, restr o'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau sy'n sefyll (lle bo'n briodol) neu dylid cyfeirio at restr ar-lein o'r holl ymgeiswyr a'r pleidiau sy'n sefyll os oes un ar gael. Os yw adroddiad o'r fath yn cael ei ddarlledu sawl gwaith ar yr un sianel neu orsaf, dylid cyfeirio at restr o ymgeiswyr bob tro, a dylai'r rhestr ymddangos o leiaf unwaith yn weledol a/neu ar lafar.

Ar gyfer eitemau neu raglenni hirach, fel dadleuon - os nad yw'r holl ymgeiswyr yn cymryd rhan, yna dylid rhestru'r ymgeiswyr eraill sy'n hysbys, yn weledol a/neu ar lafar, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad at restr o ymgeiswyr ar-lein.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys gymryd gofal arbennig wrth sicrhau didueddrwydd cyn i'r enwebiadau gau o ran rhoi sylw i'r rhai a allai ddod yn ymgeiswyr. Yn gyffredinol, dylent sicrhau na chaiff ymgeiswyr fantais annheg (er enghraifft, bod yn ofalus pan fydd enw ymgeisydd yn cael ei weld yn amlwg ar bosteri neu rosettes etc.)

Pan fydd Cyfnod yr Etholiad wedi dechrau, ni ddylai rhaglenni nad ydynt fel arfer yn ymdrin â gwleidyddiaeth, drefnu na darlledu ymddangosiadau newydd gan ymgeiswyr (gweler Rheol 6.7 Ofcom).

Pan fydd gan ymgeiswyr rolau eraill – gwleidyddol neu beidio - dylid cymryd gofal i sicrhau nad ydynt yn cael mantais annheg yn ystod ymgyrch yr etholiad ar draul ymgeiswyr eraill.

*gweler 2.1: atgyfeirio gorfodol

### 4.2 Defnyddio Ymgeiswyr mewn pecynnau sy'n ymwneud â materion, dadleuon ehangach a rhaglenni ffonio-i-mewn

Yn ogystal â dadleuon neu eitemau eraill sy'n defnyddio ymgeiswyr o fewn ardaloedd etholiadol, gall pob math o gynnwys ddefnyddio amrywiaeth briodol o ymgeiswyr o wahanol ardaloedd etholiadol i drafod materion etholiadol gyda'i gilydd. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd lle mae'n briodol defnyddio ymgeiswyr a rhai nad ydynt yn ymgeiswyr (er enghraifft, lle nad yw llefarydd plaid yn sefyll, neu mewn dadleuon rhwng arweinwyr y pleidiau).

Caniateir cyfeiriadau rhesymol at enghreifftiau lleol o fewn ardal etholiadol, er enghraifft, at ysbytai lleol, ysgolion, enghreifftiau o droseddu etc. ar yr amod nad yw'n arwain at unrhyw annhegwch i ymgeisydd sydd ddim yn cymryd rhan.

Er mwyn cynnal didueddrwydd dyladwy, dylai'r dewis o ymgeiswyr neu bleidiau a gynrychiolir fod yn briodol i'r eitem. Mater golygyddol yw pwy sy'n cymryd rhan

ac ym mha fformat, er enghraifft, mewn dadleuon, cyn belled â bod didueddrwydd dyladwy yn cael ei arfer yng nghyd-destun cyfnod yr etholiad.

Ar sail olygyddol y dewisir unigolyn i gynrychioli plaid, ond rhaid cymryd gofal yn ystod yr ymgyrch i sicrhau nad oes un ymgeisydd yn cael ei ffafrio'n ormodol ar draul y lleill. Ni ddylai ymgeisydd sy'n cymryd rhan fel llefarydd cenedlaethol gael mantais annheg dros ymgeiswyr eraill wrth drafod materion sy'n uniongyrchol berthnasol i'w hardal etholiadol. Gall hyn olygu eu cynghori ymlaen llaw o rwymedigaethau didueddrwydd dyladwy'r BBC, neu ymyrraeth gyflym gan gyflwynydd rhaglen fyw, neu ei olygu cyn y darllediad, yn ôl yr angen.

Gall ymgeiswyr gael eu hannog i gymryd rhan mewn rhaglenni ffonio-i-mewn ynglŷn â'r etholiad neu faterion etholiadol. Serch hynny, mae'n rhaid gwirio'r sawl sy'n galw i weld os ydynt yn ymgeiswyr, a rhaid iddo fod yn amlwg i'r gynulleidfa eu bod yn siarad nid fel aelodau cyffredin o'r cyhoedd ond fel ymgeiswyr sy'n cymryd rhan yn yr etholiad. Rhaid bod yn ofalus nad yw rhaglenni a mathau eraill o allbwn, dros amser, yn rhoi amlygrwydd gormodol i un blaid neu ffafriaeth ormodol i un ymgeisydd ar draul y lleill yn yr un ardal etholiadol. Dylid cymryd gofal hefyd - a gofyn am gyngor - mewn perthynas ag unrhyw gyfraniad gan ymgeisydd yn ystod rhaglen ffonio-i-mewn neu raglen debyg nad yw'n ymwneud â'r etholiad neu faterion gwleidyddol yn fwy cyffredinol.

Sylwer: o ran y diffiniad o "ymgeisydd" mewn perthynas â'i Reol 6.6, cyhoeddodd Ofcom ganllawiau, y cyfeirir atynt a'u cysylltu yn ei Nodyn i Ddarlledwyr (23 Mai 2024): https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/about-ofcom/bulletins/broadcast-bulletins/2024/issue-499/2024-05-23-election-note-to-broadcasters-2024.pdf

Gellir gofyn am gyngor pellach ynglŷn â defnyddio ymgeiswyr wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

### 4.3 Gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg

Nid yw rhai gwleidyddion yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. Os na fydd plaid yn gallu dod o hyd i siaradwr Cymraeg, gall Radio Cymru a rhaglenni BBC Cymru ar gyfer S4C droi at ymgeiswyr a chynrychiolwyr eraill y pleidiau.

Prin yw'r gwleidyddion sy'n siarad Gaeleg. Os na fydd modd dod o hyd i ymgeisydd sy'n siarad Gaeleg, gall Radio nan Gaidheal a rhaglenni BBC Alba droi at ymgeiswyr a chynrychiolwyr eraill y pleidiau.

## 5. Cyfraniadau Ar-lein, Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfraniadau'r Gynulleidfa

Bydd yr un canllawiau â rhaglenni (gweler adran 1.3 uchod) yn gymwys i gynnwys golygyddol y BBC ar holl safleoedd bbc.co.uk. Bydd y rhain yn gymwys i gynnwys sain a fideo yn ogystal â chynnwys testun, e.e. podlediadau a lawrlwythiadau, yn ogystal ag unrhyw gyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu cysylltu â'r BBC, gan gynnwys deunydd sy'n ymddangos ar safleoedd a weithredir gan drydydd partïon.

## 5.1 Twyll-wybodaeth

Mae ymgyrchu digidol a chyfryngau cymdeithasol yn frwydr fawr mewn etholiadau bellach, ac mae'r bygythiad o dwyll-wybodaeth yn chwarae rhan yn y canlyniad yn sylweddol. Yn ganolog i agwedd y BBC tuag at yr etholiad fydd gweithio i hysbysu cynulleidfaoedd am y broses ddemocrataidd a dadlennu twyll-wybodaeth, fel y gallant wneud dewisiadau ar sail tystiolaeth y gallant ymddiried ynddi.

## 5.2 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'n rhaid i staff golygyddol y BBC ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnwys etholiadol osgoi cyfaddawdu ar ddidueddrwydd y BBC na dwyn anfri ar y BBC drwy eu gweithgareddau, fel mynegi eu barn bersonol (neu gymeradwyo barn eraill) ar faterion gwleidyddol, naill ai ar wefannau personol neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. (gweler y canllawiau diwygiedig: [https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidance/individual-use-of-social-media](https://www.bbc.co.uk/editorialguidelines/guidance/individual-use-of-social-media)

## 5.3 Cyfraniadau'r gynulleidfa

Gall cyfraniadau'r gynulleidfa gynnig uniongyrchedd ac elfen ryngweithiol i gynnwys y BBC. Mae'r cyfraniadau hyn yn fynegiant o farn ac nid ydynt yn arwydd o bwys y farn ar y naill ochr neu'r llall i gwestiwn. Rhaid i'r cyfraniadau sy'n cael eu dewis i'w cynnwys gyflawni didueddrwydd dyladwy, nid yn unig yn ôl pwys gweithgaredd y gynulleidfa. Serch hynny, rhaid i ni hefyd osgoi ceisio cyflawni'r hyn y gellir ei ystyried yn gydbwysedd "artiffisial" drwy roi darlun camarweiniol o'r pwys a roddir ar y farn.

Gall cyfraniadau'r gynulleidfa fod ar ffurf neges destun, neges ar gyfryngau cymdeithasol neu e-bost, neu unrhyw fecanwaith rhyngweithiol arall, gan gynnwys "vox pop". Gallant fod yn ddigymell, neu gallant ddeillio o alwad i weithredu, naill ai ar allbwn darlledu neu ar-lein. Serch hynny, ym mha bynnag ffordd y cânt eu derbyn, dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn drylwyr ynglŷn â sefydlu tarddiad deunyddiau a gynigir fel cyfraniadau'r gynulleidfa a chymryd cyfrifoldeb am eu dilysrwydd. Efallai y bydd angen gwirio bod cyfraniad unigolyn sy'n llygad y cyhoedd, yn ôl pob tebyg, yn ddilys. Pan ddaw cyfraniadau o'r fath gan ymgeiswyr, rhaid nodi hynny'n glir.

Bydd pob tudalen ar y we sy'n annog trafodaeth am yr etholiad yn cael eu cymedroli'n drylwyr i annog ystod eang o safbwyntiau. Dylai'r rhannau hynny o bresenoldeb ar-lein y BBC sydd ddim fel arfer yn ymwneud â materion gwleidyddol ofyn am gyngor y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, cyn gwneud hynny.

Oni bai eu bod yn cynnal dadleuon etholiadol yn benodol, dylai safleoedd nad ydynt yn rhai newyddion gyfeirio defnyddwyr sydd eisiau trafod yr etholiad i rannau priodol o'r safle newyddion. Mae'n rhaid i holl rannau bbc.co.uk sy'n trafod yr etholiad gael prosesau cymedroli, hidlo ac uwchgyfeirio yn eu lle.

Weithiau, bydd rhaid i newyddiadurwyr a chymedrolwyr wneud penderfyniadau anodd rhwng sylwadau sy'n cyfrif fel dadl danbaid a chamdriniaeth bersonol. Y rheol fel arfer yw os na fyddem yn ei ddarlledu ar radio neu deledu, ni ddylai fod ar-lein. Bydd prosesau hidlo ar gyfer niwed a thramgwydd a chamdriniaeth bersonol yn gweithredu fel arfer, ond ni ddylid dibynnu arnynt fel ffordd arall o gymedroli'n effeithiol.

Yn ystod Cyfnod yr Etholiad, ni ddylid defnyddio nifer y cyfraniadau a dderbyniwyd ar unrhyw fater ymgyrchu i amcangyfrif y gefnogaeth i un ochr neu blaid.

Os caiff cyfraniadau eu golygu oherwydd eu hyd, dylid cymryd gofal i sicrhau bod safbwyntiau'r cyfrannwr yn cael eu cynrychioli'n deg ac yn gywir.

### 5.4 Vox Pops

Gwerth vox pops yw caniatáu i wahanol ochr i bwnc gael ei mynegi drwy leisiau'r cyhoedd. Ond dylai'r cyd-destun wastad ei gwneud yn glir eu bod yn fynegiant o ddadl, ac nid yn arwydd o'r pwys a roddir ar farn y ddwy ochr. Mae'n rhaid cymryd gofal arbennig gyda vox pops yn ystod ymgyrch etholiadol, er enghraifft, i ystyried y lleoliad y cânt eu recordio, a'u golygu, lle bo'n briodol, mewn ffordd sy'n sicrhau bod ystod o safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu.

Ni ddylai vox pop gael ei gomisiynu'n aml a dylai gael pwrpas golygyddol addas.

### 5.5 Rhaglenni Cynulleidfaol

Dylai unrhyw raglen sy'n ymwneud â'r etholiad ac sy'n bwriadu defnyddio cynulleidfa fyw (naill ai mewn stiwdio neu ar-lein) ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth i drafod dewis y gynulleidfa a sut i gyflawni didueddrwydd dyladwy. Dylai pob gweithdrefn o'r fath allu gwrthsefyll craffu cyhoeddus.

### 5.6 Deunydd wrth bleidiau neu ymgeiswyr

Fel arfer, ni fydd BBC News Online yn cysylltu'n uniongyrchol i ddeunydd sy'n ymwneud â'r etholiad ar wefannau pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr unigol, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol (e.e. ffrae sydd wedi'i hachosi gan ffigwr blaenllaw sy'n cyhoeddi polisi ar ei wefan/gwefan sy'n gwrthddweud y maniffesto ar wefan y blaid) ac yna dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw faterion didueddrwydd.

Bydd BBC News Online yn rhestru dolenni i holl safleoedd y pleidiau sydd ar gael, ar yr amod nad yw'n sylfaen gref dros boeni bod hyn yn torri canllawiau Niwed a Thramgwydd y BBC, Cod Ofcom, neu'r gyfraith e.e. difenwad neu ysgogi casineb hiliol.

https://www.bbc.com/editorialguidelines/guidelines/harm-and-offence

Adran dau: Niwed a thramgwydd - Ofcom

Rhaid i unrhyw areithiau neu ddeunydd arall sy'n cael eu cyhoeddi neu eu cyfrannu gan ymgeiswyr neu bleidiau, sy'n cael eu cynnwys yn llawn neu'n rhannol, gael eu dethol ar sail eu gwerth fel stori newyddion, tra'n cofio bod didueddrwydd dyladwy yn ei gwneud yn ofynnol i ystod briodol o ddeunydd o'r fath gael ei gynnwys.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys fod yn arbennig o effro i ymgyrchoedd sydd wedi'u trefnu neu lobïo gan bleidiau, grwpiau pwyso, ymgeiswyr neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan. Os ceir amheuaeth bod postio torfol neu waith lobïo arall ar waith yn ystod Cyfnod yr Etholiad, efallai y gofynnir i gyfranwyr ddarparu manylion cyswllt at ddibenion gwirio. Mae'n rhaid dechrau strategaeth uwchraddio bbc.co.uk ar unwaith, ac efallai y bydd angen, er enghraifft, rhoi bwrdd neges yn y modd cyn-gymedroli neu ddarllen-yn-unig.

## 6. Polau piniwn a dulliau eraill o gasglu barn

Dylai'r adran hon, lle bo'n briodol, gael ei darllen ar y cyd ag Adran 10 o'r Canllawiau Golygyddol a'r Canllawiau Polisi Golygyddol "Polau Piniwn, Arolygon, Holiaduron, Pleidleisiau a Pholau Gwelltyn", sydd ar gael ar y wefan Polisi Golygyddol.

### 6.1 Comisiynu Polau Piniwn

**Nid yw'r BBC yn comisiynu polau piniwn o fwriadau pleidleisio i'w cyhoeddi yn ystod cyfnodau etholiadol.**

Rhaid cymryd gofal i sicrhau na ddefnyddir unrhyw bôl piniwn a gomisiynir gan y BBC i awgrymu barn y BBC ar bolisi neu fater penodol. Gall pôl piniwn gael ei gomisiynu i helpu i lywio dealltwriaeth y gynulleidfa o bwnc llosg cyfredol, ond ni ddylid ei ddefnyddio i awgrymu ymyrraeth y BBC mewn pwnc llosg cyfredol.

**Rhaid i unrhyw fwriad i gomisiynu pôl piniwn ar faterion polisi cyhoeddus, gwleidyddol neu bwnc llosg diwydiannol, neu ar 'bynciau dadleuol' mewn unrhyw faes arall, gael ei gyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth***

### 6.2 Gohebu ar Bolau Piniwn

Yn ystod yr ymgyrch, dylai adroddiadau'r BBC o bolau piniwn ar fwriadau pleidleisio ystyried sawl ffactor allweddol:

- maent yn rhan o stori'r ymgyrch, a dylai cynulleidfaoedd, lle bo'n briodol, gael gwybod amdanynt;

- mae cyd-destun yn allweddol, ac mae'n bwysig sicrhau cywirdeb a phriodoldeb yr iaith a ddefnyddir wrth ohebu arnynt;

- gall polau piniwn fod yn anghywir – mae yna beryglon go iawn wrth ohebu ar y polau hynny "sy'n haeddu'r sylw newyddion mwyaf" yn unig h.y. y rheiny sydd, ar sail un tro, yn dangos symudiad dramatig. Am y rheswm hwnnw, ni ddylai stori newyddion gael ei seilio, fel arfer, ar un pôl piniwn pleidleisio, oni bai bod ei effaith wedi achosi stori newyddion sy'n werth rhoi sylw iddi ar wahân;

- gall fod materion penodol yn ymwneud â chyfeirio at bolau piniwn yn fwy anffurfiol, er enghraifft, yng nghwestiynau cyflwynwyr neu gyfweliadau 2-ffordd y gohebwyr, pan mae cywirdeb dyladwy ac amheuaeth yr un mor bwysig ag mewn adroddiadau sydd wedi'u sgriptio'n fwy ffurfiol;

- dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw rhagdybiaethau ynglŷn â phleidleisio yn llywio cyfeiriad penderfyniadau golygyddol ehangach yn ormodol.

Felly, mae angen dilyn y Canllawiau Golygyddol ynglŷn â gohebu ar bolau piniwn (10.3.30) gyda gofal arbennig yn ystod cyfnod yr etholiad:

- *ni ddylai canlyniad pôl piniwn fod yn brif stori neu'n brif bennawd mewn darllediad neu allbwn arall, oni bai ei fod wedi sbarduno stori sy'n teilyngu ei gwneud yn brif stori neu'n brif bennawd a bod angen cyfeirio at ganfyddiadau'r pôl piniwn er mwyn gwneud synnwyr o'r stori*
- *ni ddylai iaith roi mwy o hygrededd i bolau piniwn nag y maent yn eu haeddu. Er enghraifft, mae polau piniwn yn "awgrymu" ond byth yn "profi" neu'n "dangos"*
- *ni ddylai'r BBC, fel arfer, ddibynnu ar y dehongliad o ganlyniadau'r pôl piniwn a roddir gan y sefydliad neu'r cyhoeddiad sydd wedi'i gomisiynu;*

- *Dylai'r BBC adrodd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd, y sefydliad a gynhaliodd y pôl piniwn a'r sefydliad neu gyhoeddiad a'i comisiynodd. Ni ddylid disgrifio polau piniwn o'r fath fel 'pôl piniwn y BBC'. Dylai'r holl fanylion perthnasol, gan gynnwys y cwestiynau, y canlyniadau a maint y sampl, fod ar gael er mwyn i'r gynulleidfa allu deall y fethodoleg a'r canlyniadau;*
- *lle bo'n berthnasol yn olygyddol, dylid adrodd am ddyddiadau'r gwaith maes a digwyddiadau dilynol a allai fod wedi newid barn.*

*Ystyriaethau ychwanegol wrth ohebu ar fwriadau pleidleisio:*

- *rhaid gohebu ar ganfyddiadau polau piniwn o fwriadau pleidleisio yng nghyd-destun tuedd, a all gynnwys canlyniadau'r holl brif bolau piniwn dros gyfnod neu fod yn gyfyngedig i'r newid yng nghanfyddiadau un cwmni polau piniwn. Dylid trin canlyniadau polau piniwn sy'n herio tueddiadau heb esboniad argyhoeddiadol gyda gofal arbennig*
- *dylid hysbysu'r gynulleidfa os yw'r gwahaniaeth a gofnodwyd rhwng dwy blaid arwyddocaol yn llai na'r lwfans ansicrwydd ar gyfer methodoleg y pôl piniwn.*

Yn ogystal, dylid cymryd gofal arbennig wrth adolygu papurau newydd. Ni ddylai canlyniad pôl piniwn fod yn brif eitem mewn adolygiad papurau newydd a dylid wastad defnyddio brawddeg o gyd-destun (e.e.: "mae hyn yn anghyson â pholau piniwn eraill yr wythnos hon").

Ar ddiwrnod pleidleisio, ni ellir cyhoeddi unrhyw bôl piniwn ar unrhyw bwnc sy'n berthnasol i'r etholiad nes i'r gorsafoedd pleidleisio gau.

### 6.3 Pleidleisio SMS/Ar-lein

Ni fydd unrhyw bleidleisiau SMS/testun nac ar-lein sy'n ceisio mesur cefnogaeth i blaid, gwleidydd neu fater polisi gwleidyddol y pleidiau yn ystod cyfnod yr etholiad, ac ni ddylid defnyddio dulliau meintiol eraill, fel cyfrif nifer y negeseuon testun neu gyfraniadau cyfryngau cymdeithasol, i asesu lefel y gefnogaeth.

Rhaid i gynhyrchwyr sicrhau nad yw pleidleisiau yn cael eu trosi'n rhywbeth y gellid eu dehongli naill ai fel cynrychiolaeth o farn y cyhoedd yn ei chyfanrwydd, neu'n ganfyddiad o farn y BBC. Rhaid i unrhyw fwriad i gynnal pleidlais ar neges destun neu ar-lein ar unrhyw fater gwleidyddol a allai gael effaith ar yr etholiad gael ei drafod gyda'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, yn ogystal â'i gyfeirio at ffigwr golygyddol uwch yn yr adran berthnasol ac ITACU.

## 7. Arweinwyr y Pleidiau

**Ar wahân i gyfweliadau newyddion byrion a gasglwyd ar y dydd heb drefniant ymlaen llaw, dylai unrhyw fwriad i gyfweld ag arweinwyr y pleidiau neu eu portreadu (neu rôl weithredol arall) gael eu cyfeirio at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth cyn gofyn i'r pleidiau. Yng nghenhedloedd y DU, dylid ymgynghori â'r Penaethiaid Newyddion priodol.**

**Rhaid i gynigion o'r fath i gymryd rhan wrth y pleidiau gael eu cyfeirio hefyd cyn eu derbyn neu eu gwrthod.** Mae hyn ar y cyd â'r cyfeiriad gorfodol a nodir yn y Canllawiau Golygyddol (10.3.3) ac mae'n arbennig o bwysig yn ystod ymgyrchoedd etholiadol.

## 8. Diwrnod Pleidleisio

Ni fydd unrhyw sylw yn cael ei roi i unrhyw fater sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ymgyrch etholiadol ar unrhyw un o wasanaethau neu gyfryngau cymdeithasol y BBC rhwng 06.00 – 22.00 (rhaid cyfeirio unrhyw sylw cyn 06.00 at y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth).

Mae'r Canllawiau Golygyddol yn nodi (10.3.17): *Yr unig ohebu a ganiateir fydd disgrifiadau ffeithiol annadleuol, fel ymddangosiad gwleidyddion mewn gorsafoedd pleidleisio neu'r tywydd. Rhaid peidio â rhoi sylw i bynciau sydd wedi bod yn destun neu'n rhan o'r ymgyrchu, neu faterion dadleuol eraill sy'n ymwneud â'r etholiad, cyn i'r gorsafoedd pleidleisio gau, er mwyn sicrhau nad oes dim yn allbwn y BBC y gellir ei ddehongli fel rhywbeth sy'n dylanwadu ar y bleidlais.*

Ni fydd yn rhaid i safleoedd ar-lein dynnu adroddiadau archif, ond ni ddylid eu hailgyhoeddi.

Gellir sôn am straeon ynglŷn â mecanwaith y bleidlais (fel digwyddiadau a allai fod wedi digwydd mewn gorsafoedd pleidleisio) gyda didueddrwydd priodol. Mae cyngor ar gael wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth.

Dylid cymryd gofal arbennig hefyd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn bersonol ar ddiwrnod pleidleisio.

Ni chaniateir cyhoeddi pôl piniwn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'r etholiad tan ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau.

**Tra bod y gorsafoedd pleidleisio ar agor, mae'n drosedd cyhoeddi unrhyw beth am y ffordd y mae pobl wedi pleidleisio yn yr etholiad hwnnw, yn seiliedig ar wybodaeth gan bleidleiswyr ar ôl iddynt bleidleisio.**

## 9. Cwynion

Ymdrinnir â chwynion ar y lefel briodol - o olygyddion rhaglenni ac uwch. P'un ai a yw'r gŵyn wedi dod drwy Wasanaethau Cynulleidfa'r BBC, yn uniongyrchol at raglen neu at ohebydd neu newyddiadurwr unigol, oddi wrth wleidydd neu aelod o'r cyhoedd (a allai fod yn ymgyrchydd gwleidyddol neu beidio), o uwch swyddog yn y blaid neu ymgeisydd unigol, y nod yw sicrhau bod ymateb y BBC yn gyson, yn gadarn ac yn gyflym.

Am y rheswm hwnnw, wrth dderbyn cwyn ffurfiol, fel arfer, dylid cymryd y manylion a'u cyfeirio at y person priodol (y golygydd perthnasol fel arfer) cyn i unrhyw ymateb cychwynnol – ar wahân i gydnabyddiaeth ac amserlen – gael ei roi i'r sawl sy'n cwyno.

Gall cwynion ynglŷn â'r etholiad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â didueddrwydd a chywirdeb, fod yn destun proses gyflymach a allai ddod i benllanw gydag Ofcom, felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu cyfeirio heb unrhyw oedi.

**Dylai unrhyw un sydd angen cyngor pellach ynglŷn â defnyddio'r Canllawiau hyn ymgynghori â'r Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth**.

## Atodiad – Canllawiau ar Roi Sylw i Bleidiau ac Ymgeiswyr

Mae'r atodiad yn berthnasol i'r holl allbwn ledled y DU, yr holl gynnwys a fwriadwyd ar gyfer unrhyw le o fewn y DU.

### A1.1 Cyflwyniad

Mae penderfynu ar lefelau priodol o sylw i wahanol ymgeiswyr yn yr etholiad, sydd â lefelau amrywiol o gefnogaeth wleidyddol, yn gofyn yn bennaf am grebwyll golygyddol da a diduedd. Bydd gwahaniaethau dilys o ran dehongli a chymhwyso ar gyfer rhaglenni a fformatau gwahanol. Nod y canllawiau canlynol yw sicrhau lefelau priodol o sylw, gyda'r lefel isaf o sylw yn achos pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol - nid yw'n gosod unrhyw uchafswm. Mae cyngor ar gael, fesul achos, oddi wrth y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth, cyn a thrwy gydol yr ymgyrch.

Felly er bod yn rhaid i bob gwasanaeth sicrhau bod y sylw a roddir yn gymesur o ran y pleidiau a'r ymgeiswyr, dylid trin hynny fel canllaw yn hytrach na fformiwla fathemategol bendant. Serch hynny, mae'n rhaid cael rhesymau golygyddol da dros unrhyw amrywiad sylweddol ac ni all y rhain ddisodli'r brif rwymedigaeth am ddidueddrwydd dyladwy a thegwch.

Dylai maint cymharol y sylw a roddir i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr annibynnol ym mhob ardal etholiadol (er enghraifft, o fewn etholaethau unigol neu ar draws grŵp o etholaethau) adlewyrchu lefelau'r gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol yn yr ardal etholiadol honno. Ystyrir lleoliad y gynulleidfa arfaethedig, perfformiad yn yr etholiadau cyfatebol diwethaf, dros ddau gylch etholiadol o leiaf (h.y. 2019 a 2017), fel man cychwyn o ran cynrychiolaeth a chyfran o'r bleidlais; rhaid rhoi pwys dyladwy hefyd i'r ffactorau canlynol:

- perfformiad mewn etholiadau eraill, lle bo'n berthnasol
- tystiolaeth berthnasol arall o'r gefnogaeth etholiadol gyfredol, gan gynnwys patrymau cadarn mewn polau piniwn perthnasol
- nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran plaid yn yr etholiad
- materion golygyddol perthnasol eraill, fel cytundebau etholiadol, pleidiau newydd, cytundebau clymblaid etc.

Bydd y Canllawiau hyn yn parhau i allu cael eu diwygio yn sgil unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd o gefnogaeth wleidyddol gyfredol tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau.

## A1.2 OFCOM

Mae'r Atodiad hwn yn amodol ar Adran 6 o God Ofcom (diweddarwyd ym mis Ionawr 2019, ac mae'n rhoi ystyriaeth i'r Canllawiau cysylltiedig (22ain Mawrth 2017).

https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code/section-six-elections-referendums

Cyhoeddwyd Crynodeb Ofcom "Tystiolaeth o gefnogaeth etholiadol yn y gorffennol a thystiolaeth o gefnogaeth bresennol cyn yr Etholiad Cyffredinol a gynhelir ar 4 Gorffennaf 2024" ar 29 Mai 2024:

https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/tv-radio-and-on-demand/broadcast-guidance/programme-guidance/election-guidance/general-election-digest-2024.pdf

Mae'n nodi rhai o'r ffactorau y mae Ofcom yn eu hystyried wrth ystyried cwynion o dan Adran 6 o'r Cod:

- *rydym yn rhoi mwy o bwys ar berfformiad go iawn plaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol na data pôl piniwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod perfformiad etholiadol yn fesur o sut mae pleidleiswyr wedi gwneud eu dewis democrataidd. Mae hyn yn cymharu â'r ansicrwydd mwy sydd ynghlwm wrth gefnogaeth mewn polau piniwn, nad yw o reidrwydd yn arwain at bleidleisiau go iawn neu at seddi mewn etholiad*;

- *wrth ystyried cefnogaeth mewn etholiadau blaenorol, rydym yn ystyried ffactorau fel perfformiad etholiadol pleidiau (gan gynnwys nifer yr ymgeiswyr a gafodd eu hethol a chanran gyffredinol y bleidlais a gafwyd) mewn etholiadau blaenorol cyfatebol dros o leiaf ddau gylch etholiadol;*

- *rydym hefyd yn ystyried perfformiad mewn etholiadau perthnasol blaenorol eraill a gafodd eu cynnal ar yr un pryd, yn ogystal â pherfformiad mewn etholiadau blaenorol diweddar eraill;*

- *rydym yn ystyried perfformiad etholiadol pleidiau dros ddau gylch etholiadol o leiaf wrth ystyried perfformiad mewn unrhyw fath o etholiad. Fodd bynnag, rydym yn rhoi llai o bwys ar dystiolaeth o berfformiad etholiadol dau gylch etholiadol neu fwy o ystyried natur hanesyddol y dystiolaeth honno;*

- *pan fo'n berthnasol, byddwn yn ystyried tystiolaeth mewn perthynas â pherfformiad etholiadol yng nghenhedloedd gwahanol y DU;*

- *wrth roi llai o bwys ar lefelau cefnogaeth cyfredol o'i chymharu â pherfformiad go iawn, rydym yn rhoi pwys ar dystiolaeth o gefnogaeth gyfredol sy'n wrthrychol ac yn fesuradwy. Un math o dystiolaeth wrthrychol a mesuradwy o gefnogaeth gyfredol yw data pôl piniwn, pan fydd ar gael. Efallai fod mathau eraill o dystiolaeth o gefnogaeth gyfredol, ond wrth ystyried tystiolaeth o'r fath, byddem yn ystyried cysondeb a gwrthrychedd pob math o dystiolaeth; ac*

- *ein bwriad bob tro yw cynnal asesiad cytbwys gan ystyried y dystiolaeth berthnasol yn ei chyfanrwydd.*

## A2.1 Sylw'r BBC i'r pleidiau ar draws y DU

Adlewyrchir cryfder etholiadol y pleidiau ar draws y DU mewn ffyrdd gwahanol, gydag amrywiadau yn ôl cenedl, ymgeisyddiaeth (lleoliad a niferoedd), math o etholiad, amserlen, cyfran y pleidleisiau a nifer y seddi a enillwyd. Yn ogystal, gall ffurfio pleidiau newydd, cytundebau etholiadol posib a phatrymau cadarn ar draws polau piniwn perthnasol i gyd fod yn ffactorau perthnasol wrth asesu sylw priodol yn ystod yr etholiad.

Y Ceidwadwyr a Llafur yw'r ddwy blaid fwyaf yng nghyd-destun etholiad Senedd San Steffan, a dylent dderbyn lefelau tebyg o sylw ar y cyfan.

Dylai Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Democratiaid Rhyddfrydol dderbyn lefelau sylweddol o sylw, hyd at a chan gynnwys symiau tebyg i'r ddwy blaid fwyaf, yn dibynnu ar berthnasedd materion, cyd-destun daearyddol, etc.

Rhaid i raglenni ar draws y DU hefyd sicrhau bod Plaid Cymru yn cael lefelau o sylw sy'n briodol ac yn gymesur ar yr allbwn y mae'r pleidiau mwyaf yn cyfrannu atynt ac, ar adegau, lefelau tebyg o sylw, os yw'n briodol.

Dylai'r Blaid Werdd (Plaid Werdd Cymru a Lloegr a Phlaid Werdd yr Alban) a Reform UK hefyd dderbyn sylw cymesur, hyd at a chan gynnwys lefelau tebyg i'r pleidiau mwyaf lle bo'n briodol.

Dylai cynhyrchwyr cynnwys roi ystyriaeth i ba feysydd polisi sydd wedi'u datganoli a pha rai sydd yn nwylo Senedd San Steffan, ac felly, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Etholiad Cyffredinol.

## A2.2 Sylw yn y DU ar gyfer pleidiau eraill ym Mhrydain Fawr:

Mae'r canllawiau canlynol (sy'n berthnasol i holl bleidiau Prydain Fawr) wedi'u hanelu at sicrhau'r lefel isaf o sylw i bleidiau llai - nid yw'n gosod uchafswm.

Gall pleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi yn Lloegr ddisgwyl sylw – gan gynnwys clip os ar gael – o lansiad eu maniffesto (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar bob un o'r canlynol:

- o leiaf dau o’r prif fwletinau ar BBC One (h.y. One, Six, Ten)
- The News Channel
- Radio 4 1800
- Radio 5 Live Drive
- BBC Online

Dylid cyfeirio at y lansiad neu’r digwyddiad hefyd ar:
- Crynodebau Radio 2
- Newsbeat

Dylai pleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn llai nag un rhan o chwech o’r seddi ar draws Lloegr, sydd ag ymgyrchoedd credadwy, dderbyn rhywfaint o sylw, lle bo’n briodol, ar BBC Online.

### A2.3 Sylw i bleidiau Gogledd Iwerddon ar allbwn ar draws y DU

Y pleidiau mwyaf yng Ngogledd Iwerddon yw: yr Unoliaethwyr Democrataidd, Sinn Fein, yr Alliance Party, y SDLP a Phlaid Unoliaethwyr Ulster. Gan ystyried y gyfran briodol o'r bleidlais a lefel y gynrychiolaeth ar draws y ddau gylch etholiadol diwethaf, dylai rhaglenni a ddarlledir ar draws y DU sy’n gohebu ar yr etholiad fel y mae’n effeithio ar Ogledd Iwerddon roi lefelau tebyg o sylw i’r DUP a Sinn Fein.

Dylai’r Alliance Party, y SDLP a Phlaid Unoliaethwyr Ulster hefyd gael lefelau priodol o sylw mewn allbwn sy’n cynnwys y ddwy blaid fwyaf, hyd at a chan gynnwys lefelau tebyg o sylw.

Gall y pum plaid fwyaf ddisgwyl, fan lleiaf, y rhoddir sylw (gan gynnwys clip os ar gael) o lansiad eu maniffestos (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar y rhaglenni rhwydwaith a amlinellwyd uchod.

Gall pleidiau eraill sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o’r seddi yng Ngogledd Iwerddon ddisgwyl sylw, fan lleiaf, ar BBC Online.

### A3 Sylw i’r pleidiau ar BBC Scotland:

Adlewyrchir cryfder etholiadol y pleidiau yn yr Alban mewn ffyrdd gwahanol, gydag amrywiadau yn ôl math o etholiad, ymgeisyddiaeth, amserlen, cyfran y pleidleisiau a nifer y seddi a enillwyd. Yn ogystal, gall ffurfio pleidiau newydd, cytundebau etholiadol posib a phatrymau cadarn ar draws polau piniwn perthnasol i gyd fod yn ffactorau perthnasol wrth asesu sylw priodol yn ystod yr etholiad.

Derbyniodd y SNP, y Ceidwadwyr, Llafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol gefnogaeth etholiadol sylweddol yn etholiadau cyffredinol 2019 a 2017 ac mewn etholiadau eraill diweddar: yn fras, dylai'r pleidiau hyn dderbyn lefelau tebyg o sylw.

Mae Plaid Werdd yr Alban wedi dangos cefnogaeth etholiadol sylweddol a dylai dderbyn sylw cymesur â’r pleidiau mwyaf, gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw.

O ystyried tystiolaeth bellach o gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol, dylai Alba a Reform UK hefyd dderbyn sylw sy'n gymesur i Blaid Werdd yr Alban gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw.

Gall pob plaid sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o seddi yn yr Alban ddisgwyl cael – fan lleiaf - sylw i lansiad eu maniffestos (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar raglenni newyddion a materion cyfoes priodol ar deledu a radio yn yr Alban ac ar-lein.

Gall pleidiau eraill sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn llai nag un rhan o chwech o'r seddi yn yr Alban, ond sydd ag ymgyrchoedd credadwy, dderbyn sylw, fan lleiaf, ar BBC Online ar ryw adeg yn ystod yr ymgyrch.

### A4 Sylw i'r pleidiau ar BBC Cymru:

Adlewyrchir cryfder etholiadol y pleidiau yng Nghymru mewn ffyrdd gwahanol, gydag amrywiadau yn ôl math o etholiad, ymgeisyddiaeth, amserlen, cyfran y pleidleisiau a nifer y seddi a enillwyd. Yn ogystal, gall ffurfio pleidiau newydd, cytundebau etholiadol posib a phatrymau cadarn ar draws polau piniwn perthnasol i gyd fod yn ffactorau perthnasol wrth asesu sylw priodol yn ystod yr etholiad.

Derbyniodd Llafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru gefnogaeth etholiadol sylweddol yng Nghymru yn etholiadau cyffredinol 2019 a 2017 ac mewn etholiadau eraill diweddar: bydd y pleidiau hyn yn derbyn lefelau tebyg o sylw. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol a Reform UK wedi derbyn cefnogaeth etholiadol a dylent dderbyn sylw cymesur â'r pleidiau mwyaf, gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw.

Bydd pleidiau eraill sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o seddi yng Nghymru yn cael – fan lleiaf - sylw i lansiad eu maniffestos (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar raglenni newyddion a materion cyfoes priodol ar deledu a radio yng Nghymru ac ar-lein.

Gall pleidiau eraill sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn llai nag un rhan o chwech o'r seddi yng Nghymru, ond sydd ag ymgyrchoedd credadwy, dderbyn sylw, fan lleiaf, ar BBC Online, ar ryw adeg yn ystod yr ymgyrch.

### A5 Sylw i'r pleidiau ar BBC Northern Ireland:

Y pleidiau sydd wedi sicrhau cefnogaeth etholiadol sylweddol yn ystod y ddau gylch etholiadol diwethaf yng Ngogledd Iwerddon yw:

y DUP, Sinn Fein, yr Alliance Party, y SDLP ac Unoliaethwyr Ulster.

O ystyried lefelau'r gefnogaeth etholiadol a dderbyniwyd yn 2019, 2017 ac mewn etholiadau eraill diweddar, dylai'r DUP a Sinn Fein dderbyn lefelau tebyg o sylw. Gallai'r Alliance Party, y SDLP ac Unoliaethwyr Ulster, ar adegau, dderbyn lefelau tebyg o sylw i'r ddwy blaid fwyaf.

Mae'r TUV wedi dangos rhywfaint o gefnogaeth etholiadol a dylai dderbyn sylw cymesur â'r pleidiau mwyaf, gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw.

Gall pleidiau eraill sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi yng Ngogledd Iwerddon ddisgwyl cael – fan lleiaf – sylw i lansiad eu maniffestos (neu ddigwyddiad cyfwerth) ar raglenni newyddion a materion cyfoes priodol ar deledu a radio ac ar-lein.

Ymhlith y pleidiau eraill hyn, dylai'r rheini sy'n gallu dangos rhywfaint o gefnogaeth etholiadol (er enghraifft y rhai sydd wedi ennill cynrychiolaeth yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon yn 2022), dderbyn – yn gymesur â'r pleidiau mwy – mwy o sylw na'r rheini na all.

## A6 Sylw i'r pleidiau yn Lloegr a Radio Lleol

Ym mhob ardal, dylai rhaglenni rhanbarthol a lleol roi ystyriaeth i unrhyw lefelau amrywiol o gefnogaeth i'r ffordd maent yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol a lefelau'r sylw i bleidiau gwahanol. Ar draws Lloegr yn ei chyfanrwydd, serch hynny, y pleidiau sydd wedi sicrhau cefnogaeth etholiadol sylweddol yn ystod y ddau gylch etholiadol diwethaf yw:

Llafur a'r Ceidwadwyr; dylent fel arfer gael eu cynrychioli gan lefelau tebyg o sylw mewn allbwn etholiadol priodol; mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi profi cefnogaeth etholiadol sylweddol a dylai dderbyn sylw cymesur â'r ddwy blaid fwyaf, gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw.

O ystyried tystiolaeth bellach o gefnogaeth etholiadol flaenorol a/neu gyfredol, dylai'r Blaid Werdd a Reform UK hefyd dderbyn sylw cymesur, gan gynnwys, ar adegau, lefelau tebyg o sylw i'r pleidiau mwy.

Ar deledu rhanbarthol, dylai ymgeiswyr sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o seddi yn yr ardal ddisgwyl cael – fan lleiaf – un eitem sylweddol (gan gynnwys clip lle bo'n bosib) ar y rhaglen 6.30 a Sunday Politics yn ystod yr ymgyrch.

Ar orsafoedd radio lleol, gall pleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o seddi yn yr ardal ddisgwyl cael – fan lleiaf - un eitem sylweddol (gan gynnwys clip lle bo'n bosib) ar raglen benodedig ym mhob wythnos o'r ymgyrch, ar ôl i'r enwebiadau gau.

Dylai pleidiau sy'n gallu dangos rhywfaint o gefnogaeth etholiadol (er enghraifft, seddi cynghorau lleol), yn ogystal â'r rhai sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn o leiaf un rhan o chwech o'r seddi perthnasol, dderbyn – yn gymesur â'r pleidiau mwy – mwy o sylw na'r rhai na all.

Dylai pleidiau sydd ag ymgeiswyr yn sefyll mewn llai nag un rhan o chwech o'r seddi mewn ardal, ond sy'n cynnal ymgyrchoedd credadwy, hefyd dderbyn sylw ar-lein rywbryd yn ystod yr ymgyrch, fel unrhyw ymgeiswyr annibynnol sy'n cynnal ymgyrchoedd credadwy.

## A7 Ymgeiswyr annibynnol

Bydd nifer o ymgeiswyr sy'n gysylltiedig â phleidiau yn sefyll. Wrth roi sylw i etholaethau unigol, gall fod yn briodol sicrhau bod ymgeiswyr annibynnol yn

derbyn sylw cymesur ag ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol mwy neu lai, yn enwedig lle bo ganddynt:

- gefnogaeth etholiadol flaenorol sylweddol neu gyfnod sylweddol yn y rôl
- dystiolaeth o gefnogaeth etholiadol gyfredol sylweddol.

## A8 Rhestrau o ymgeiswyr ar BBC Online

Bydd BBC News Online, y Cenhedloedd a gwefannau ledled Lloegr (mewn cysylltiad clos â'i gilydd i sicrhau dull sy'n gyson ar draws y BBC) yn cyhoeddi rhestr gyflawn o ymgeiswyr (yn nhrefn yr wyddor fesul enw olaf) ym mhob etholaeth yn yr Etholiad Cyffredinol, y gellir cyfeirio ati gan raglenni er mwyn sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Nes bod y rhestr honno ar gael – ar ôl i'r enwebiadau gau – bydd angen i adroddiadau etholaethol sy'n cael eu darlledu neu ar-lein gwblhau eu rhestr eu hunain o ymgeiswyr hysbys, lle bo'n briodol.

Bydd unrhyw dystiolaeth berthnasol newydd a sylweddol o'r gefnogaeth etholiadol gyfredol yn parhau i gael ei hystyried tan y diwrnod ar ôl i'r enwebiadau gau. Bydd y Canllawiau hyn, felly, yn parhau i gael eu diwygio tan y dyddiad hwnnw.